

CYNGOR
YMARFEROL
AR GYFER
ARBED
ARIAN YN
Y CARTREF



DŴR AC YNNI



GWNEWCH
FWY I
ARBED
MWY

carbon isel



cartrefi hapus



Mae tap sy'n rhedeg yn gwastraffu **6 litr** o ddŵr y funud



Ewch i'r arfer o gau'r tap wrth lanhau eich dannedd. Mae'n ddŵr o ansawdd da sy'n costio arian i chi.

Dim ond **3%** o'r dŵr a ddefnyddiwn yn y cartref sy'n cael ei yfed



Bydd trin tap sy'n diferu yn arbed **£18** y flwyddyn i chi

Gall tap sy'n diferu wastraffu hyd at 5,500 litr o ddŵr y flwyddyn - digon i lenwi pwll padlo bob wythnos drwy'r haf.

Gallai cael cawod gyflym arbed tua **£40** y flwyddyn i chi




Bydd cawodydd byrrach yn arbed arian ar eich biliau dŵr ac ynni. Er hynny, byddwch yn ofalus gan fod rhai 'cawodydd pŵer' ddefnyddio mwy o ddŵr na llenwi bath cyfan. Gosodwch ben cawod eco a threulio dim ond pedwar munud yn y gawod i arbed arian.



Gall pibell ddŵr ddefnyddio **100 litr** o ddŵr yr awr

Gallwch arbed arian drwy ddefnyddio can dŵr yn unig i ddyfrio'r ardd. Hefyd, buddsoddwch mewn casgen ddŵr blastig i gasglu glaw - mae'n ddŵr am ddim!

Gall un bath ddefnyddio hyd at **80 litr** o ddŵr





Gall peiriannau golchi llestri ddefnyddio **50 litr** o ddŵr y tro

Mae peiriannau golchi llestri'n fwy cost effeithiol na golchi llestri yn y sinc, ond dim ond pan fyddant yn llawn. Peidiwch â rinsio'r llestri dan y tap cyn eu rhoi yn y peiriant. Os rydych chi ar fesurydd dŵr, mae'n arian sy'n mynd i lawr y draen!

Rydym yn gwario tua **£67** y flwyddyn ar ddŵr potel


Mae modd arbed **40%** ar eich bil ynni wrth droi at 30°C



Mae golchi dillad am 30°C yn hytrach na 40°C yn defnyddio 40% yn llai o ynni. Mae'r rhan fwyaf o'r brandiau deunydd golchi mawr yn effeithiol ar dymheredd isel erbyn hyn. Defnyddiwch raglenni eco a golchwch pan fydd llwyth llawn gennych yn unig.

1c yw cost 10 litr o ddŵr yfed glân o'ch tap

Mae 'Bag Hippo' yn lleihau faint o ddŵr rydych yn ei ddefnyddio wrth fflysio



Mae **30%** o'r holl ddŵr domestig yn cael ei fflysio i lawr y toiled



Mae'r toiled yn cael ei fflysio 5,000 o weithiau'r flwyddyn mewn cartref cyffredin ac yn defnyddio 13 litr o ddŵr bob tro. Mae modd defnyddio cyn lleied â 5 litr drwy osod toiled fflysio deuil, neu ddefnyddio cit trosi i osod botwm fflysio deuil ar doiled arferol sy'n costio cyn lleied â £12.

Mae 'Bag Hippo' yn dadleoli rhywfaint o'r dŵr yn seston eich toiled ac yn lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir i fflysio. Cewch ofyn am 'Fag Hippo' am ddim drwy gysylltu â Dŵr Cymru ar eu gwefan: www.dwrcymru.com



Mae bylbiau golau
ynni isel yn defnyddio
80% yn llai o
drydan ac yn para 10
gwaith yn hwy na
bylbiau cyffredin

Arbedwch
£35
y flwyddyn
drwy newid i
fylbiau LED
neu ynni isel



Gall cartref cyffredin arbed hyd
at £35 y flwyddyn drwy osod bylbiau
ynni isel a rhoi sbotoleuadau LED
yn lle lampiau halogen.

Mae rhewgell
yn defnyddio
llai o ynni o
lawer os yw
bron yn llawn



Mae'n rhaid i'ch oergell-rhewgell fod
ymlaen drwy'r dydd. Mae unrhyw
ddulliau o arbed ynni ac arian yn fonws
mawr. Mae oergelloedd yn gweithio
orau ar dymheredd uchaf o 5°C a
rhewgelloedd ar -18°C. Byddai
oergell-rhewgell wedi ei raddio'n 'A+++'
yn arbed tua £190 i chi dros ei oes.



Gall troi eich
thermostat i
lawr dim ond
1° arbed hyd at
£85
y flwyddyn

Mae modd
arbed **£30**
y flwyddyn
drwy ddiffodd
eich peiriannau
trydanol



Os yw eich ystafelloedd yn rhy boeth
peidiwch ag agor ffenestr achos mae
hynny'n wastraff arian. Newidiwch y
tymheredd â'ch thermostat i arbed
punnoedd.

Meddyliwch ddwywaith ynglŷn â
gadael yr holl setiau teledu, blychau
lloeren, chwaraewyr dvd, cyfrifiaduron,
gwefrwyr ffonau a chonsolau gemau ar
fodd segur-gallai arbed arian i chi.



Pob tro rydych yn berwi tegell llawn dŵr, mae'n costio **2.5c** i chi

Gall berwi tegell am banded fod yn ddrud os rydych yn ei lenwi. Berwch y dŵr sydd ei angen yn unig. Mae'n gynt ac yn rhatach. Mae digennu tu mewn eich tegell yn ei helpu i weithio'n fwy effeithlon hefyd.



Mae **5** microdon gwaith yn fwy effeithlon o ran ynni na phoptai trydan

Mae effeithlonrwydd microdonnau o ran ynni yn 65% i'w cymharu â phoptai trydan sy'n 12% yn effeithlon o ran ynni. Defnyddiwch microdon i aildwymo bwyd neu i goginio llysiau i gael y canlyniadau gorau.



Mae peiriant sychu dillad wedi'i raddio'n 'A' yn costio **14c** y llwyth

o'i gymharu â pheiriant sychu dillad gradd 'C' sy'n costio tua 49c y llwyth. Rhowch y dillad i droelli'n gyflym cyn eu sychu i arbed mwy o ynni.

'dyw sychu dillad ar lein ddillad yn yr awyr iach yn costio dim a byddant yn arogleuo'n fwy ffres hefyd



Gall insiweiddio'r atig i drwch o 10 modfedd arbed **£140** y flwyddyn i chi

Gall insiweiddio'ch cartref yn gywir arbed cannoedd o bunnau i chi bob blwyddyn. Gall atal drafftiau o gwmpas ffenestri, drysau a sgerstins arbed hyd at £50 y flwyddyn arall i chi.



Gallai bwyler nwy newydd arbed **£340** y flwyddyn i chi

Mae bwyler nwy yn gyfrifol am dros hanner eich bil ynni blyneddol. Pan gewch gyfle i gael bwyler newydd, dewiswch fodel cyddwysu mwy effeithiol, wedi ei raddio'n 'A'.



Peidiwch â defnyddio'r popty i goginio un peth yn unig

Mae'n costio tua 30c i ddefnyddio popty trydan am awr - coginiwch fwy nag un peth ar y tro a rhewi'r gweddill i'w dwymo yn y ficrodon rhywbryd etc.



Mae cwcer araf yn defnyddio'r un faint o drydan â bwlb golau cyffredin

Tua 10c yn unig yw cost 8 awr o goginio mewn cwcer araf - perffaith ar gyfer pryd blasus sy'n barod pan ddech adref o'r gwaith !



Gall cyflenwyr ynni gwyrdd fod yn well i'ch poced ac i'r blaned

Os oes modd i chi ddewis eich cyflenwyr ynni eich hun, efallai y byddwch yn synnu pa mor gystadleuol yw prisiau ynni y dyddiau hyn - defnyddiwch wefan cymharu prisiau fel uSwitch i chwilio am y bargeinion gorau.

Leading a low carbon lifestyle isn't just good for the planet, it's also good for lowering your household bills.

The 'Low Carbon, Happy Homes' project has recently been launched across Anglesey. Led by Menter Môn, with funding through the Rural Development Plan, the project aims to make communities on Anglesey more aware of the benefits of energy efficiency and renewable energy sources. This booklet is packed full of simple energy and money saving tips you can easily do around the home. If there is anything else you would like to know, or just want more information about the project, get in touch:

carbon@mentermon.com

